**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 18fed o Orffennaf 2017.**

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Einir Thomas

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Lloyd Jones
Cyng. Beryl Salisbury

**Cyflwyniad gan: Sqd. Ldr. David Williams.**

Roedd y prosiect a ddechreuwyd ym mis Chwefror 2016 i adnewyddu Camp Fali bron â'i gwblhau a'r disgwyliad oedd y byddai'r ddwy redfa yn weithredol erbyn diwedd mis Gorfennaf. Er bod nifer yr awyrennau sydd yno wedi gostwng o 72 yn 1990 i 38 erbyn 2017, roedd y buddsoddiad yn werth £20 miliwn a byddai'n sicrhau dyfodol Camp Fali i genhedlaeth arall. Roedd y prosiect wedi rhedeg sawl mis drosodd ond cytunwyd bod y gwaith wedi tarfu llai na'r disgwyl ar drigolion lleol a bod materion traffig ar Ffordd Cymyran wedi cael eu rheoli'n dda. Cadarnhawyd bod yr Adran Priffyrdd yn monitro cyflwr y ffordd fel y gellid sicrhau fod y contractwyr yn rhoi sylw i unrhyw ddifrod cyn iddynt orffen.

Defnyddiwyd peth o'r gwastraff nad oedd wedi'i ailgylchu i wella rhannau o'r ffordd i lawr i draeth Cymyran.

Nodwyd hefyd na fydd hedfan yn yr ardal yn ystod wythnos yr Eisteddfod rhag iddynt amharu ar yr achlysur.

**1. Datganiad o ddiddordeb:** Datganodd Cyng. Gordon Owen ddiddordeb o fuddiant niweidiol yn eitem 4.1 a gadawodd y cyfarfod heb gymryd rhan yn y trafodaethau.

**2. Cofnodion cyfarfod 20fed o Fehefin 2017:**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Gordon Owen.)

**3. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Cae chwarae - Nodwyd bod IOACC wedi cael ei hysbysu o sylwadau'r Arolygydd ar y postiai gôl a chadarnhawyd fod y clerc wedi gofyn am ddyfynbrisiau am drin d yr arwynebau a phaentio'r offer.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

2. Llwybrau: Cafwyd cadarnhad gan gwmni GMS fod llwybrau troed 1-5, 10-12 a 27 wedi eu torri ar 15 Mai 2017 ond nodwyd bod llwybr troed 27 o dan dyfiant mawr ar hyn o bryd. Nodwyd fod angen marcio llwybrau troed 14 a 18 a'u rhoi ar y rhestr i'w torri.

3. Llochesi Bws: cafwyd cadarnhad gan yr yswirwyr y byddent yn talu am atgyweirio'r llochesi yn seiliedig ar y dyfynbris a roddwyd gan William Evans a Sons Ltd. Ac fe ofynnwyd iddynt wneud y gwaith.

4. Seddi Gwag: byddai'r clerc yn rhoi gwybod i CSYM bod y Cyngor Cymuned yn awyddus i fwrw ymlaen â hysbysebu'r rhain mor fuan ac sydd bosib.

5. Gwaith ar safle Cofeb Mathew Bach - Nodwyd bod y safle wedi cael ei glirio, bod y llwyni wedi cael eu trimio, a bod coeden ifanc a rhai planhigion newydd wedi'u rhoi o gwmpas y gofeb.

6. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim.

**4. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

1. 32EL1530A/E/SCR - Barn scrinio ar gyfer gosod llinell 132kV uwchben y ddaear am oddeutu 750m (i'r gogledd o Gaergeiliog) ynghyd â chebl 650m dan ddaear i is-orsef Caergeiliog – dim sylwadau.

2. 32C68N Ysgol Sefydledig Caergeiliog – cais llawn ar gyfer dymchel dosbarth presennol chodi dosbarth newydd – dim gwthwynebiad.

**5. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Cyfarfodydd Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022.
2. CDLl ar y Cyd Gwynedd & Môn - Adroddiad yr Arolygwr .

**6. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.4.2017 i 30.6.2017 ynghyd â Chysoniad Banc a Datganiadau Banc.

**Yn y banc ar 18.7.2017 Cyfrif Cyfredol £8438.73, Cyfrif Cadw £3,921.50**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………..

**Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Mehefin) | £181.72 | HMRC (TWE) | £45.40 |
| GMS (INV- 2281) | £91.20 | Gwaith Cynnal | £200.00 |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

7. **Cyfrifon 2016/17 a 2017/2018**

Dim i'w adrodd ar gyfrifon 2016/17.

Roedd y gwariant tebygol ar gyfer y tri mis cyntaf o'r flwyddyn 2017/18 ar darged heb unrhyw amrywiadau arwyddocaol ar wahân i gostau'r etholiad - nid oedd angen y £1,500 a neilltuwyd ar ei gyfer.

**8. Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol**

1. Bwletin Un Llais Cymru
2. Cod Trefniadaeth Ysgolion Diwygiedig
3. Gweithdai llesiant lleol
4. Ymgynghoriad am gynigion i roi pwerau troseddol penodol i Awdurdod Cyllid Cymru i fynd i'r afael â throseddau trethi datganoledig.
5. Gwahoddiad: Agoriad Gweithfeydd Trin Dwr Alaw & Cefni

**9. Unrhyw fater arall**

Adroddwyd fod angen rhoi sylw i'r wal gerrig sy wrth geg Stad Treifan.

Nodwyd bod Swyddogion IOACC yn bwriadu rhoi conau ar yr A5 i reoli parcio yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Roedd y clerc i ofyn am gofnodion cyfarfodydd Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan.

**10. Cyfarfod nesaf 19eg o Fedi 2017.**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….